# EDT2 14-04 w- min

# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Cofnodion

**Dyddiad** 13 Hydref 2004
**Amser** 9.00 hyd 12.30
**Lleoliad** Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

## Yn Bresennol

| **Aelodau'r Pwyllgor** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth) | Gorllewin Abertawe |
| Brian Gibbons | Aberafan |
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Lisa Francis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Lynne Neagle | Tor-faen |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |

### Swyddogion

| | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr yr Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth |
| David Hobbs | Uned Fusnes Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth |
| Denzil Jones | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| Gerry Quarrell | Y Gangen Polisi Cefn Gwlad ac Arfordir |
| John Abraham | Y Tîm Rhaglenni Plant a Theuluoedd |
| Tony Parker | Prif Beiriannydd Priffyrdd |

**Yn bresennol**

Dr Victoria Winckler Cyfarwyddwr, Sefydliad Bevan
Carwyn Jones AC Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Yr Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| Sian Wilkins | Clerc |
| Lynsey Edwards | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau ac nid oedd unrhyw ddirprwyon yn bresennol.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth EDT2 14-04 (p1)**

1. Bu i'r Aelodau gwestiynu'r rhesymau dros ddatganiad diweddar y Gweinidog ynghylch yr oedi o ran cyflwyno safle LG yng Nghasnewydd yn ôl. Eglurodd y Gweinidog ei bod wedi cymryd hirach nag y disgwylid i gwblhau'r gwaith peirianneg er mwyn paratoi'r safle i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Dywedodd yn ogystal mai'r flaenoriaeth oedd dod o hyd i ddeiliaid newydd ar ei gyfer. Mewn perthynas â'r grant Cymorth Rhanbarthol Dewisol a ddyfarnwyd i gwmni LG, cadarnhaodd y Gweinidog unwaith eto fod y gweithdrefnau cywir wedi'u dilyn a bod ad-daliad sylweddol o'r cyllid Cymorth Rhanbarthol Dewisol wedi'i dderbyn.
2. Mewn perthynas â'r ffaith bod DARA yn rhoi'r gorau i'w waith ar safle Sain Tathan, dywedodd y Gweinidog ei fod wedi gofyn i Awdurdod Datblygu Cymru gyflwyno cynlluniau ar gyfer meddiannaeth arall o'r safle. Cytunodd y Gweinidog i ddosbarthu copi o Gwestiwn Ysgrifenedig diweddar ynghylch cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng Gweinidogion, Y Weinyddiaeth Amddiffyn a DARA. [Gweithredu: Y Gweinidog]
3. Roedd yr Aelodau'n bryderus bod gwastraff peryglus o Gymru yn cael ei gludo i Peterborough ar hyn o bryd gan fod safleoedd yn Swindon wedi gwrthod derbyn gwastraff o Gymru. Cytunodd y Gweinidog i drafod y mater â'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ac i adrodd wrth y Pwyllgor. Cytunodd yn ogystal i ddarparu gwybodaeth bellach am y datblygiadau diweddaraf o ran pennu safleoedd addas yng Nghymru. [Gweithredu: Y Gweinidog]
4. O ran proses cyfuno Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru â Llywodraeth Cynulliad Cymru, cadarnhaodd y byddai llinellau ar wahân o fewn y gyllideb yn parhau yn ei Brif Grp Gwariant hyd nes y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud ynghylch y strwythur ar ôl cyfuno. Holwyd sut y byddai atebolrwydd clir yn cael ei ddangos yn ystod y broses gyfuno. Roedd perygl y byddai llinellau o fewn y gyllideb yn cael eu rhannu, gan wneud gwaith craffu ar y gyllideb yn anodd iawn. Dywedodd y Gweinidog y byddai craffu mwy manwl yn digwydd ar ôl i'r broses gyfuno gael ei chwblhau gan y byddai cyfle i Aelodau graffu ar berfformiad Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, drwyddo ef, ac yn fwy rheolaidd nag a wneir ar hyn o

bryd. Cadarnhaodd y Gweinidog yn ogystal nad oedd unrhyw awgrym y byddai unrhyw rai o swyddogaethau Awdurdod Datblygu Cymru na swyddogaethau Bwrdd Croeso Cymru yn cael eu trosglwyddo i Awdurdodau Lleol.

5. Disgwylid i bapur yn cynnig opsiynau ar gyfer eu cyfuno gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd at ddibenion ymgynghori. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod wedi gofyn am gyfarfod â'r Gweinidog ac â llefarydd y blaid i drafod sut y gallai'r Pwyllgor graffu ar y broses gyfuno.
6. Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn bwriadu lansio canfyddiadau'r Adolygiad o'r Diwydiannau Creadigol ym mis Tachwedd. Cytunodd i gyflwyno ei gynigion i'r Pwyllgor. [Gweithredu: Y Gweinidog]
7. Cyfeiriodd Aelod at fater ardollau gan Awdurdodau Lleol ar lety gwyliau o dan y ddeddfwriaeth newydd ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth. Cytunodd y Gweinidog fod y diffiniad presennol o Dai Amlfeddiannaeth yn rhy eang. Byddai deddfwriaeth newydd sy'n cael ei thrafod yn Nhy'r Cyffredin ar hyn o bryd yn gwneud y diffiniad o lety gwyliau yn fwy pendant.
8. Roedd prisiau tocynnau gwasanaethau Arriva yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru wedi cynyddu 44% yn ddiweddar. Bernid bod y prisiau hyn wedi codi oherwydd y fenter tocynnau bws am ddim i bensiynwyr yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog nad oedd prisiau teg yn fater y byddai'r Cwmni wedi'i drafod â'r Llywodraeth. Penderfyniad cwbl fasnachol ydoedd. Bu i'r Aelodau holi a oedd y system bresennol o gyfrif defnydd o dan y fenter tocynnau bws yn effeithiol. Byddai'r Gweinidog yn adolygu costau'r fenter tocynnau bws am ddim yn y Flwyddyn Newydd, pan fydd awdurdodau lleol yn cyflwyno manylion ynghylch y taliadau a wneir i gwmnïau bws. Byddai'r adolygiad yn ystyried y cynnydd ym mhrisiau tocynnau bws a hefyd y defnydd o wasanaethau bws.
9. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu mwy o wybodaeth am ba fesurau a gyflwynwyd i ddiogelu swyddi ac adleoli gweithwyr yn yr Asiantaeth Fenter yng Ngwynedd. [Gweithredu: Y Gweinidog]
10. Holodd Aelod a fyddai'r Datblygiad SA1 yn Abertawe yn cael ei gwblhau'n brydlon. Nid oedd y Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw oedi ond gofynnodd i'r Aelod ddarparu manylion ynghylch unrhyw faterion penodol.
11. O ran yr ymgyrch diweddar yn erbyn Yfed a Gyrru, dywedodd y Dirprwy Weinidog mai’r grp oed 17-25 oedd yr un mwyaf tebygol i fod mewn damweiniau yfed a gyrru. Roedd Awdurdodau Heddlu Cymru yn cynnal ymgyrchoedd penodol er mwyn targedu’r grp oed hwn. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod diffyg awdurdod cyfreithiol Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas ag yfed a gyrru yn amharu ar allu Awdurdodau’r Heddlu i gynnal ymgyrchoedd llwyddiannus.
12. Awgrymai ystadegau diweddar ynghylch swyddi fod nifer y menywod economaidd anweithgar yng Nghymru wedi cynyddu. Dywedodd y Gweinidog fod swyddogion wrthi'n ystyried y rhesymau dros y newidiadau hyn a byddai'n adrodd wrth y Pwyllgor yn nes ymlaen ynghylch unrhyw ganfyddiadau perthnasol. [Gweithredu: Y Gweinidog]

## Eitem 3: Adroddiad Sefydliad Bevan
## EDT2 14-04 (p2)

1. Bu i Christine Chapman a Brian Gibbons ddatgan buddiant. Roedd y ddau ohonynt yn aelodau o Sefydliad Bevan.
2. Amlinellodd Dr Winckler brif ganfyddiadau'r adroddiad. Er y byddai deuoli'r ffordd yn golygu

cryn fuddsoddiad yn ei seilwaith, teimlai na fyddai'r datblygiad ynddo'i hun yn ddigonol er mwyn adfywio'r ardal. Roedd angen trawsnewid barn pobl ynghylch yr ardal ac roedd angen ystyried twristiaeth, datblygu tai, gwell ansawdd amgylcheddol ac adfywio canol y dref fel materion o bwysigrwydd cyfartal. Roedd sawl risg yn gysylltiedig â deuoli'r ffordd yn ogystal. Awgrymai tystiolaeth o ffynonellau eraill y gallai datblygiad o'r fath olygu bod buddsoddiad mewn ardal yn lleihau. Croesawyd cyhoeddiad y Gweinidog ei fod yn sefydlu Tasglu i ystyried y mesurau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl o fuddsoddi yn seilwaith y ffordd.

3. O ran lefelau sgiliau, dywedodd Dr Winckler nad oedd llawer o wybodaeth yn bodoli am gymwysterau a chyflogau'r boblogaeth ar hyn o bryd. Os na fyddai Llywodraeth y Cynulliad ond yn ymateb i'r angen am swyddi ar lefel isel ni fyddai'r ardal ond yn llwyddo i ddenu 'rhagor o'r un peth'. Mewn ymateb i bryderon penodol ynghylch cyllid ar gyfer Coleg Gwent a Choleg Merthyr Tudful, dywedodd y Gweinidog fod y Gweinidog Addysg wedi cyhoeddi cynnydd yn y gyllideb addysg er mwyn canolbwyntio rhagor ar sgiliau.
4. Bu i rai Aelodau fynegi pryderon y byddai deuoli'r A464 yn golygu ei bod yn goridor i Ganolbarth Lloegr, gan ailgreu'r broblem yr achosodd yr A55 o ran ynysu cymunedau yng Ngogledd Cymru. Dywedodd Dr Winckler fod gwersi cyffredinol o gynllun datblygu'r A55 wedi'u hystyried, ond nid oedd profiadau wedi'u defnyddio oherwydd nid oedd ardal Blaenau'r Cymoedd mor ddibynnol ar dwristiaeth ag ydoedd Ynys Môn.
5. Bu i'r Aelodau holi a ddylai targedau penodol gael eu pennu ar gyfer twf economaidd yn yr ardal ac os dylent, pa dargedau ddylai gael eu pennu. Dywedodd Dr Winckler y byddai angen i unrhyw dargedau a bennir gydnabod bod yn rhaid i unrhyw becyn adfer fod yn un hirdymor er mwyn gorchfygu dros hanner canrif o ddirywiad economaidd yn yr ardal.
6. O ran amseroedd teithio, dywedodd Dr Winckler y byddai hyd yn oed lleihad bychan yn sgîl y gwaith deuoli yn allweddol bwysig i fusnesau a oedd yn gweithio o fewn amserlenni dosbarthu caeth. Roedd gwell dibynadwyedd hefyd yn ffactor i fusnesau ei ystyried.
7. Roedd yr Aelodau yn bryderus y golygai lefelau rhenti isel ar gyfer eiddo diwydiannol yn yr ardal nad oedd unrhyw gyfalaf ar gyfer gwneud gwelliannau i eiddo diwydiannol a fyddai'n denu buddsoddwyr o'r tu allan. Dywedodd Dr Winckler y credai y gallai hyn gyfiawnhau ymyrraeth gyhoeddus. Dywedodd y Gweinidog ei fod wedi cymeradwyo strategaeth eiddo gan Awdurdod Datblygu Cymru yn ddiweddar ac y byddai'n sicrhau ei bod yn adlewyrchu anghenion ardaloedd difreintiedig, er y gallai fod angen cyllid o'r sector cyhoeddus ar ardaloedd fel Glynebwy a Merthyr Tudful yn ogystal.
8. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cyllid Amcan Un, dywedodd y Gweinidog nad oedd yn gwybod faint o gronfeydd strwythurol fyddai ar gael ar ôl 2006 ond roedd WEFO yn ystyried arferion gorau a'r gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen bresennol. Byddai hyn yn golygu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn gwell sefyllfa ar gyfer y cylch nesaf.
9. Pwysleisiwyd na ellir tanbrisio pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig. Gwnaed cymariaethau â phrosiectau yn Iwerddon lle roedd cynllun adnewyddu trefol a chynllun cwtogi treth wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn rhai ardaloedd difreintiedig.
10. O ran effaith y gwaith deuoli ar y gymuned fusnes, dywedodd y Swyddogion fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymgynghori â'r gymuned fusnes ac wedi cynnal arddangosfeydd cyhoeddus cyn i'r gwaith ddechrau. Unwaith y dechreuodd y gwaith bu Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cysylltiad â'r cyhoedd ac â busnesau er mwyn gwrando ar eu pryderon.

11. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch targedu cyllid i awdurdodau lleol, dywedodd Dr Winckler nad oedd yn teimlo ei bod yn briodol i awdurdodau lleol dderbyn sieciau gweigion. Yn ogystal, dylai data gael ei fonitro a'i werthuso'n briodol.

**Eitem 4: Yr Adolygiad o'r Parciau Cenedlaethol a Chynllun Gweithredu Drafft EDT2 14-04 (p3)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad y papur a gofynnodd am sylwadau'r Pwyllgor ynghylch sut y gallai Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ddatblygu'r agweddau economaidd ar y Parciau ymhellach yn ogystal â mynd i'r afael â datblygu cynaliadwy.
2. Cafwyd trafodaeth ynghylch yr adroddiad a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd angen rhagor o waith partneriaeth o fewn y sector twristiaeth a dylai swyddogaeth Bwrdd Croeso Cymru gael ei diffinio'n glir.
- Mynegwyd pryderon ynghylch natur lem dybiedig prosesau cynllunio'r Parciau Cenedlaethol. Roedd gwell cysylltiadau cyhoeddus yn ofynnol ar ddechrau'r broses. Cytunodd y Gweinidog mai rhagdybiaeth oedd hon ac nad oedd ffeithiau i'w phrofi.
- Roedd angen gwell dealltwriaeth o swyddogaeth economaidd a chymunedol y parciau cenedlaethol. Roedd yn bwysig bod gweithgareddau economaidd yn cael eu cynnal o fewn y parciau ond roedd angen iddynt hefyd gadw materion cynaliadwyedd mewn cof.
- Mewn perthynas ag argymhellion adroddiad yr adolygiad ynghylch datblygiad economaidd, dywedodd y Gweinidog nad oedd unrhyw un nac unrhyw beth wedi'i ddarbwyllo y dylai pwerau datblygu economaidd gael eu rhoi i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Cytunai'r Aelodau na fyddent yn awyddus i unrhyw gyllid na chyfrifoldebau drosglwyddo'n raddol o awdurdodau lleol i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Yn ogystal, dylai cyllidebau'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ddod yn rhan o brif gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ni ddylent gael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol.
- Teimlai'r Aelodau fod angen i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol gyrraedd cymunedau y tu mewn a'r tu allan i'r parciau cenedlaethol er mwyn eu galluogi i elwa ar fanteision economaidd y Parciau yn ogystal â mwynhau'r adnodd naturiol. Roedd rhai enghreifftiau da o'r effeithiau uniongyrchol ar dwristiaeth mewn pentrefi ar gyrion y Parciau. Enwyd Glyncorrwg fel enghraifft o'r arfer hwn ar waith.

3. Trafodwyd a ddylai unrhyw aelodau o Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol gael eu dewis drwy etholiadau uniongyrchol (yn unol ag argymhelliad yr adroddiad). Dywedodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad y gallai penodi aelodau drwy wahanol ddulliau arwain at densiwn posibl rhwng aelodau. Cytunai'r Aelodau ar y cyfan fod rhai aelodau etholedig yn well na system 'penodiadau yn unig'. Golygai'r ffaith bod y bwrdd yn cynnwys rhai aelodau etholedig ei fod yn fwy cynrychioladol a'i fod hefyd yn cynnwys gwybodaeth 'arbenigol'. Ni chytunwyd ar y nifer priodol o aelodau etholedig y dylai bwrdd ei gynnwys.
4. Cydnabyddwyd yn ogystal, er nad oedd yn uniongyrchol berthnasol i'r adolygiad, y gallai peidio â chynnwys y Parciau Cenedlaethol yn yr ardaloedd chwilio strategol a bennir yng nghynllun drafft TAN 8 roi pwysau ychwanegol ar ardaloedd gwledig eraill yng Nghymru o ran datblygu

ffermydd gwynt. Roedd angen bod yn flaengar wrth ystyried mathau eraill o ynni adnewyddadwy o fewn y Parciau. Roedd diffyg ffynonellau o ynni adnewyddadwy yn mynd yn groes i egwyddorion datblygu cynaliadwy. Bu i rai Aelodau awgrymu y dylid ailystyried y Parciau Cenedlaethol fel safleoedd posibl ar gyfer gweithrediadau ynni adnewyddadwy fel bio-màs neu bwer tonnau. Awgrymai ymchwil diweddar nad oedd lleoli ffermydd gwynt mewn ardaloedd twristaidd yn golygu eu bod yn llai poblogaidd ymysg twristiaid.

5. Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ynghylch y drafodaeth. [Gweithredu: Y Clerc]

**Eitem 5: Y Gweithgor Gofal Plant - Adroddiad Interim**
**EDT2 14-04 (p4)**

1. Cyflwynodd Brian Gibbons y papur a dynnodd sylw at waith y gweithgor a oedd wedi paratoi'r ddogfen ymgynghori. Cyfeiriodd at y rhanddeiliaid amrywiol a oedd yn gysylltiedig â'r broses ac at yr arbenigedd amrywiol yr oeddent wedi'i gyfrannu. Dywedodd fod y papur yn amlinellu'r materion y tynnwyd sylw atynt ac yn cyfeirio at y symposiwm a gynhaliwyd ar 23 Medi, lle daeth arbenigwyr amrywiol o bob rhan o'r DU ynghyd. Rhagwelid y byddai’r grp yn paratoi ei adroddiad terfynol erbyn diwedd 2004 ac y byddai dadl yn cael ei chynnal arno yn y Cyfarfod Llawn ym mis Chwefror.
2. Bu i'r Aelodau nodi bod gofal plant yn wahanol iawn i unrhyw wasanaeth arall oherwydd y golygai drosglwyddo plant i ofal person arall. Roedd y berthynas rhwng y plant a'r gofalwyr yn hollbwysig. Gallai gofal plant da fod yn fanteisiol iawn i blant ond gallai gofal plant gwael effeithio'n negyddol arnynt.
3. Roedd sgiliau'r bobl a ddarparai'r gofal plant a'r hyfforddiant yr oeddent yn ei dderbyn yn hollbwysig. Roedd yr angen am hyfforddiant o'r radd flaenaf yn gwbl hanfodol a dylid anelu at sicrhau bod statws gofalwyr a'r parch a ddangosir tuag atynt gyfystyr â statws athrawon a'r parch a ddangosir tuag atynt hwy. Roedd angen darparu hyfforddiant penodol i bobl fel y gallant ofalu am blant anabl neu blant ag anghenion arbennig a chymryd camau er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth hon ar gael o fewn y brif ffrwd. Un dull posibl o wneud hyn fyddai cynnwys hyfforddiant o'r fath fel modiwl o hyfforddiant mwy cyffredinol i ofalwyr.
4. Dangosai'r adroddiad yr angen am ddewis ac amrywiaeth ac amrywiai hyn o leoliad i leoliad. Roedd yn gwbl glir fod y ddarpariaeth yn fwy cyfyngedig mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac roedd angen cymryd camau er mwyn defnyddio adnoddau at y diben hwn.
5. Ni ddylid ystyried gofal plant fel gwasanaeth unigol eithr fel rhan o wasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau cymorth eraill i blant, fel gofal iechyd. Nid oedd hyn o anghenraid yn dibynnu ar adeiladau arbennig a gallai gael ei ddarparu ymhob ardal drwy gydgysylltu gwasanaethau yn briodol.
6. Bu i'r Aelodau bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth dda ar gael i rieni mewn perthynas â'u dewis o ofal plant a'u bod yn ei defnyddio. Pwysleisiwyd y dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu'r wybodaeth hon.
7. Bu i'r Aelodau nodi bod angen arbennig am ofal plant mewn canolfannau fel Caerdydd a Chasnewydd lle roedd nifer fawr o bobl yn teithio'n ôl a blaen. Roedd yn well gan rai rhieni ddefnyddio cyfleusterau gofal plant a oedd yn agos at eu gweithle er mwyn lleihau'r amser yr

oeddent yn gadael eu plant ac er mwyn bod yn agos atynt rhag ofn bod angen yn ystod y dydd.

8. Mynegwyd pryderon ynghylch yr holl reoliadau yr oedd yn ofynnol eu bodloni cyn sefydlu cyfleusterau gofal plant. Er na allai safonau o ran addasrwydd a hyfforddiant staff gael eu llacio mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith bod rhai o'r gofynion yn rhy fiwrocrataidd. Roedd yr Aelodau'n bryderus bod y beichiau a gyflwynir gan gyrff fel ASGC yn rhwystro'r ddarpariaeth o ofal plant, er eu bod yn seiliedig ar egwyddorion cadarn. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod tystiolaeth oddi wrth ddarparwyr gofal yn awgrymu bod pethau wedi gwella o ran hynny ac nad yw'r gofynion hyn bellach yn gymaint o rwystr. Nodwyd y gallai'r sefyllfa gael ei gwella petai cyrff fel Awdurdod Datblygu Cymru ac ASGC yn darparu cymorth i ofalwyr plant mewn perthynas ag agweddau ymarferol ar eu gofynion fel sefydlu gweithdrefn gwyno. Roedd Awdurdod Datblygu Cymru yn rhoi arian i'r Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol ar hyn o bryd er mwyn mentora darpar ofalwyr plant drwy'r broses gofrestru.
9. Lle roedd prinder darpariaeth roedd rhieni yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau gofal plant anffurfiol a allai fod yn anniogel ac weithiau'n anghyfreithlon. Awgrymwyd bod gofal o'r fath yn fwy cyffredin mewn cymunedau tlotach ond roedd yn bwysig peidio â gorbwysleisio'r broblem. Nodwyd y gallai technoleg modern wneud cyfraniad defnyddiol o ran sicrhau safonau gofal plant. Gallai systemau fel teledu cylch cyfyng ddarparu tystiolaeth ddiamheuol ynghylch sut y darperid y gofal. Er y gallai cost cyfalaf fod yn gysylltiedig â hyn, gallai arwain at rai arbedion mewn mannau eraill.
10. Roedd angen rhagor o gymorth busnes ar bobl a oedd yn dymuno bod yn ofalwyr plant a nodwyd bod yr adroddiad yn awgrymu nad oedd gofal plant yn flaenoriaeth benodol i Awdurdod Datblygu Cymru. Holwyd a oedd yr Awdurdod erioed wedi ystyried cefnogi busnesau gofal plant a leolir gerllaw cyflogwyr masnachol neu ddiwydiannol.
11. Nodwyd gwerth y gofal plant a ddarperir gan ofalwyr ond pwysleisiwyd mai gwasanaeth o fewn y sector cyhoeddus yn bennaf ydoedd. Roedd tystiolaeth yn bodoli a ddangosai fod darparu gwasanaethau o'r fath yn ffactor sylweddol wrth gadw staff o'r radd flaenaf o fewn busnesau ac a ddangosai fod buddsoddiad o'r fath yn un costeffeithiol.

**Eitem 6: Adolygiad Polisi Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth - Anweithgarwch Economaidd**
**EDT2 14-04 (p5)**

6.1 Cytunwyd gohirio'r drafodaeth hon hyd y cyfarfod nesaf. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau e-bostio unrhyw sylwadau cychwynnol ynghylch yr adroddiad drafft at y Clerc.

**Eitem 7: Deddfwriaeth yr UE**
**EDT2 14-04 (p6)**

1. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn parhau i ddilyn hynt y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith.
2. Bu i'r Aelodau hefyd ofyn am fwy o wybodaeth am gyfarwyddebau Euratom mewn perthynas â gosodiadau niwclear a rheoli gwastraff. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau y cytunwyd yn y cyfarfod diweddar â Phwyllgor Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad y byddai'r Pwyllgor hwnnw'n arwain y gwaith ond byddai'n trefnu i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

ystyried unrhyw bapurau perthnasol ar y gyfarwyddeb hon.

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfodydd diwethaf**
**EDT2 13-04 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2004**
**EDT2 14-04 Camau heb eu Cymryd**

1. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau Hydref 2004**